ECA
Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Electrotechnegol a Pheirianneg

Cymdeithas y Contractwyr Trydanol (ECA) yw llais blaenllaw contractwyr trydanol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ers dros ganrif mae'r ECA wedi chwarae rhan allweddol wrth yrru safonau a chefnogi twf diwydiant ffyniannus, sydd bellach yn hanfodol i gyflenwi a chyfle economaidd sero net.

# Siarter yr ECA i Ailwefru Sgiliau Trydanol yng Nghymru

Mae Cymru'n awyddus i gadw ei lle ar flaen y gad yn ystod chwyldro diwydiannol 'gwyrdd' newydd. Bydd y chwyldro hwn yn seiliedig ar ddatgarboneiddio helaeth. Bydd yn bosibl oherwydd ehangu cyflym ar drydaneiddio a digideiddio ar draws sectorau a thechnolegau lluosog. Mae ECA Wales yn gefnogwyr brwd i'r cyfeiriad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i osod. Eto i gyd, mae heriau sylweddol yn arafu'r ddarpariaeth. Mae'r heriau hyn yn cynnwys:




Mae trydanwyr a busnesau trydanol (mae 99.8% o gwmnïau trydanol yn fusnesau bach a chanolig) yn hanfodol i gymdeithas ac yn cyfrannu'n sylweddol at economi ehangach Cymru. Er hynny, nid yw llunwyr polisi bob amser yn ymgynghori'n ddigonol â nhw nac yn eu hystyried.

Mae angen dybryd ar Gymru am ddeialog fwy cyson, cydweithredol a strwythuredig rhwng y diwydiant trydanol, addysg, a chyrff cyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau bod y mentrau sgiliau 'trydanol gwyrdd' cywir ar waith a bod y mentrau hyn yn gweithio'n ddigon da i gyflawni ein huchelgeisiau 'sero net' a rennir.




Nid oes gan Gymru heddiw ddigon o drydanwyr galluog a chymwys.

Mae angen i'r wlad gyflymu twf diweddar mewn prentisiaid trydanol i isafswm o 700 o ddechreuwyr bob blwyddyn, er mwyn cynnal maint y gweithlu presennol. Golyga hyn bod o leiaf 100 yn fwy o brentisiaid trydan yn dechrau ar eu cwrs bob blwyddyn o'i gymharu â'r niferoedd a ddechreuodd eu prentisiaeth yn 2023/24.

Mae cyflogwyr yn dymuno cydweithio'n agosach â darparwyr addysg a chyrff cyhoeddus i wella ansawdd hyfforddiant prentisiaeth, gan gynnwys ffocws cryfach ar gyflawni safonau cymhwysedd a gydnabyddir gan y diwydiant.




Ar hyn o bryd, nid oes gan bolisïau caffael yng Nghymru gefnogaeth ystyrlon ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy a datblygu sgiliau o fewn cadwyni cyflenwi. Mae hyn er gwaethaf ymrwymiadau lefel uchel i Bartneriaeth Gymdeithasol a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae cyfraddau dilyniant o'r gyfres newydd o gymwysterau Sylfaenol a Dilyniant L2 i brentisiaethau L3 a gydnabyddir gan y diwydiant yn parhau heb eu hadrodd ac felly'n ansicr. Mae ansicrwydd o'r fath yn tanseilio hyder y diwydiant yn y cymwysterau hyn fel sbardunau i'r brentisiaeth.

Mae cyflogwyr trydanol yng Nghymru eisiau gwneud mwy i helpu colegau, ysgolion a gwasanaethau gyrfaoedd â'r gwaith o baratoi pobl ifanc at brentisiaethau. Maen nhw'n awyddus i ddangos y manteision cydol oes a ddaw o gael gyrfa sy'n ymwneud â chrefftau medrus, yn ogystal â dangos y rhan fyddan nhw'n ei chwarae yn nyfodol Cymru.

# Cynghrair Sgiliau Trydanol y Dyfodol

**Mae'r ECA yn credu bod cydweithio ehangach a dyfnach ar sgiliau trydanol rhwng Llywodraeth Cymru, Medr, cyrff cyhoeddus eraill, darparwyr addysg a'r diwydiant trydanol yn hanfodol i Gymru gyflawni ei huchelgeisiau ar gyfer dyfodol mwy llewyrchus a 'sero net'.**

## 1. Trydanwyr wrth galon sero net

**Cynnal** sgyrsiau strwythuredig cyson am sgiliau trydanol. Dylai'r sgyrsiau drafod dimensiynau cenedlaethol/strategol a rhanbarthol/gweithredol.

**Bachu** ar unrhyw gyfle i adolygu'r cymhwyster lefel 3 Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu mewn Gosodiadau Electrodechnegol er mwyn ehangu ar fewnbwn y diwydiant trydan a'r gefnogaeth mae'n ei chael.

**Gweithiwch gyda** Fforwm Sgiliau Cymdeithas Contractwyr Trydanol Cymru i fanteisio i'r eithaf ar raglen Cyfrifon Dysgu Personol arloesol Cymru.

## 2. Hybu maint ac ansawdd y ddarpariaeth o brentisiaethau electrodechnegol

**Cytunwch** ar strategaeth a chynllun ar y cyd i gynyddu nifer y rheini sy'n dechrau a chwblhau prentisiaethau trydanol bob blwyddyn i lefel gynaliadwy er mwyn cyflawni'r nodau sero net.

**Cysoni'r** cyllid sydd wedi ei ddyrannu gan y cynllun hwn i ddarparu prentisiaethau trydanol ac asesu'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r prentisiaethau yn effeithiol mewn modd realistig.

**Archwiliwch** fesurau i annog mwy o gydweithio rhwng cyflogwyr a darparwyr i wella'r ddarpariaeth o hyfforddiant ac i gefnogi dysgwyr i gyrraedd safonau cymhwysedd a gydnabyddir gan ddiwydiant..

## 3. Cydweithio agosach ar gyfer piblinell gryfach o sgiliau

**Ewch ati i gynnwys** targedau uchelgeisiol ar gyfer datblygu sgiliau i gontractau cyhoeddus, gyda mewnbwn ystyrlon gan sectorau trydanol a chyflogi eraill i ddylunio, gorfodi ac adrodd ar dargedau.

**Monitrwch** a chymerwch gamau i gynyddu cyfraddau dilyniant o'r cymwysterau yn yr ystafell ddosbarth i brentisiaethau a llwybrau hyfforddi eraill a gydnabyddir gan y diwydiant.

**Hwyluswch** fwy o fewnbwn gan y diwydiant i gyngor ar yrfaoedd a chwricwlwm yr ysgol er mwyn trawsnewid yr ymwybyddiaeth o gyfleoedd o ran gyrfaoedd trydanol a chyfraniad hanfodol y sector i ddyfodol Cymru.

Mae'r prinder trydanwyr sydd wedi cymhwyso, ynghyd â'r ffaith bod dim llif cyson o sgiliau yn cael eu meithrin, yn bygwth ein rhwystro ni rhag cyflawni'r targedau Sero Net, ond mae modd goresgyn y rhwystr hwn. Rydym ni'n galw ar y rhai sy'n creu polisïau, arweinwyr y diwydiant, ac addysgwyr i ddod at ei gilydd ac ymuno â'n hymgyrch i **#Ail-wefru Sgiliau Trydanol** drwy gymeradwyo **Cynghrair Sgiliau Trydanol y Dyfodol.**